

ner / Occupier

Fy Nghyf/ My Ref P-095

Dyddiad/ Date : 28 January 2019

Dear Sir / Madam

PONTYCLUN SAFE ROUTES IN THE COMMUNITY

As you may be aware, the council recently consulted on proposals to introduce a 20mph speed limit in Cowbridge Road between its junctions with Park Crescent and Station Terrace and include the side roads in between.

It is also proposed to introduce School Keep Clear markings on Heol Y Felin and relocate the existing north bound bus stop from outside the Tesco store to the existing layby outside the Masonic Hall.

586 letters were delivered and 103 responses received. Of those responses;

10 objected to the scheme;

5 objected to the 20mph limit

25 objected to the re-location of the bus stop.

The main concern regarded the proposed relocation of the bus stop. While these concerns are noted, the existing arrangement causes difficulty for those using the wanting to use the service and complaints have been made of buses failing to stop and passengers not being able to board.. Therefore it is considered that relocating the bus stop would better serve the community. A shelter will be provided at the bus stop.

It is also proposed to extend the 20mph speed limit northwards to include Station Approach which is well used by pedestrians, in the 20mph limit.

It is also proposed to move the pedestrian refuge at the southern end of Cowbridge Road northwards by approximately 40 metres however this will also require the introduction of No Waiting at Any time restrictions to allow traffic to pass freely

Details of the proposals are shown on the attached drawings P095-75-003 and P095-75-004

The next stage in the process is a period of Public Notice of the proposals, where details of the scheme are advertised to provide opportunity for members of the public to formally raise any concerns they may have. If you wish to object to the proposals, you should do so in writing by 19 February 2019 to the Traffic Manager, Traffic Management, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or alternatively by email at trafficservices@rctcbc.gov.uk

I trust the above is of assistance, however if you require any further information please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely

Andrew McGowan
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig ,Senior Engineer,Traffic Management


Tŷ Sardis/Sardis House
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001
Ffacs/Fax: 01443 490414

Chris Lee C.P.F.A
Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Gymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



Perchennog/Meddiannydd

Fy Nghyf/My Ref P-095

Dyddiad/Date: 28 Ionawr 2019

Annwyl Syr/Fadam

LLWYBRAU DIOGEL YN Y GYMUNED, PONT-Y-CLUN

Mae'n bosibl eich bod chi eisoes yn gwybod bod y Cyngor wedi ymgynghori ar gynigion i gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ar Heol y Bontfaen rhwng ei chyffyrdd â Chilgant y Parc a Theras yr Orsaf a chynnwys ffyrdd ochr rhyngddyn nhw.

Mae bwriad hefyd i gyflwyno marciau ffordd 'Ysgol Cadwch Yn Glir' ar Heol Y Felin, yn ogystal ag adleoli'r safle bws presennol sy'n mynd i gyfeiriad y gogledd o'r tu allan i siop Tesco i'r gilfan sy'n bodoli eisoes y tu allan i Neuadd y Seiri Rhyddion.

Cafodd 586 o lythyron eu dosbarthu a daeth 103 ymateb i law. O'r ymatebion;
10 wedi gwrthwynebu'r cynllun;
5 wedi gwrthwynebu'r terfyn cyflymder o 20mya
25 wedi gwrthwynebu lleoliad newydd y safle bws.

Y prif bryder oedd lleoliad arfaethedig newydd y safle bws. Er ein bod ni'n ystyried y pryderon yma, mae'r trefniant presennol yn achosi anawsterau i unigolion sydd eisiau defnyddio'r gwasanaeth. Mae cwynion wedi dod i law ynglŷn â bysiau'n methu â stopio a theithwyr nad oes modd iddyn nhw fynd ar y bws. Felly byddai symud y safle bws yn well ar gyfer y gymuned. Byddwn ni'n darparu cysgodfa ar gyfer y safle bws.

Y cynnig yw ymestyn y terfyn cyflymder o 20mya tua'r gogledd i gynnwys stryd Station Approach, sy'n cael ei defnyddio'n aml gan gerddwyr, yn y parth 20mya.

Cynnig arall yw symud yr ynys groesi i gerddwyr ar ben deheuol Heol y Bontfaen tua'r gogledd am tua 40 metr. Serch hynny, bydd angen cyflwyno cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg er mwyn i draffig lifo

Mae manylion y cynigion i'w gweld yn llun P095-75-003 / P095-75-004

Cam nesaf y broses ydy cyfnod o Rybudd Cyhoeddus sy'n nodi manylion y cynnig cyn inni ei weithredu. Dyma gyfle ichi godi unrhyw bryderon sydd gyda chi'n ffurfiol. Os ydych chi eisiau gwrthwynebu'r cynnig yma, gwnewch hynny drwy ysgrifennu llythyr erbyn 19 Chwefror 2019, at y Rheolwr Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU, neu anfonwch e-bost i GwasanaethauTraffig@rctcbc.gov.uk.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth. Ond, os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Andrew McGowan Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig , Senior Engineer, Traffic Management

Tŷ Sardis/Sardis House
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001
Ffacs/Fax: 01443 490414

Chris Lee C.P.F.A

Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen | Group Director, Corporate and Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Gymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

